

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR

C. B. Jones

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms. Karyl May (Ffôn: 01443 424045)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 28 Chwefror 2018** am **5.00 p.m.**

AGENDA

Tudalennau

DATGAN BUDDIANT

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Côd Ymddygiad

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a

2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

- 2** **CYHOEDDIADAU**

- 3** **COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2018 yn rhai cywir.

1 – 12

- 4** **LLYWODRAETH AGORED:**

- 5** **DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw

gyfrifoldebau gweinyddu.

6 CWESTIYNAU GAN YR AELODAU

- (a) **Gwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Williams i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan)**

"A all yr Aelod o'r Cabinet rannu newyddion yngŵ'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn y gwaith o ailddatblygu safle Hen Ganolfan Siopa Dyffryn Taf?"

- (b) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Belzak i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings)**

"Yn dilyn penderfyniad llywodraeth Beijing sy'n ymwneud â chau'r drws ar wastraff ailgylchadwy gan y DU a 27 gwlad yr UE o 1 Ionawr 2018, a gan ystyried bod 65% o wastraff ailgylchadwy'r DU wedi mynd i Tsieina yn y gorffennol (yn ogystal â swm sylweddol o'r categorïau gwastraff ailgylchadwy eraill), pa ganran o'r gwastraff sy'n cael ei ddioli ar gyfer ei ailgylchu gan breswylwyr Rhondda Cynon Taf ydy'r aelod yn disgwyl gaiff ei ailgylchu (yn hytrach na chael ei losgi neu'i symud i safle tirlenwi) yn ystod blwyddyn calendr 2018?"

- (c) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. M. Powell i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"Beth sydd wedi cael ei drafod gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas ag effaith Brexit ar y Llywodraeth Leol?"

- (d) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Grehan i'r Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Llesiant (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis)**

"A all yr Aelod o'r Cabinet sydd â chyfrifoldeb am ganolfannau cymunedol, y Cyngorydd Rhys Lewis, roi syniad i ni pryd mae disgwyl i Ganolfan Gymunedol

Tonyrefail gau nawr bod y grŵp, sy'n cwrdd yn y Ganolfan bob dydd, wedi cael ei orfodi i adael?"

(e) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L.M. Adams i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen)**

"A fydd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc yn gwneud datganiad ymglâ blaenoria ethau eich Pwyllgor?"

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

7 Cynllun Llesiant Cwm Taf 2018-2023

Trafod adroddiad y Prif Weithredwr **13 – 64**

8 Rhyddfraint y Fwrdeistref

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr - Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus **65 – 66**

9 Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor ar gyfer 2018/19

Trafod adroddiad y Cabinet **67 – 170**

10 Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd y Cyngor

Trafod adroddiad y Cabinet **171 – 198**

11 Penderfyniad ar Dreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2019

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen **199 - 208**

12 Darparu tyweli misglwyf ac ati mewn ysgolion yn Rhondda Cynon Taf (Rhybudd o Gynnig) – Adroddiad Terfynol

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol. **209 – 248**

13 Cynigion Rheoli Dogfennau

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr - Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus **249 – 254**

14 Penderfyniadau Gweithredol Brys

Ystyried adroddiad yr Ysgrifennydd i'r Cabinet

255 – 256

15 Pwyllgor Safonau – Penodi Aelod Annibynnol Newydd

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

16 Newid i Aelodaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

17 Rhybuddion o Gynigion

(a) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol M.Griffiths a J.Bonetto:-

"Mae'r Cyngor yma'n galw am ddatblygu cynlluniau i gefnogi seilwaith Cerbydau Carbon Isel (LCV) yn Rhondda Cynon Taf trwy:

- Sefydlu Gweithgor i edrych ar ddatblygiad y seilwaith yma a fydd yn adrodd argymhellion allweddol yn ôl i'r Cabinet.
- Lobïo Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith o ddarparu'r dechnoleg yma i gefnogi galw cyhoeddus yn y dyfodol a manteision amgylcheddol ehangach Cerbydau Carbon Isel.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw isadeiledd i wefrio Cerbydau Carbon Isel yn Rhondda Cynon Taf, ac mae'r argaeledd yn gyfyngedig ar draws Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi amlinellu cynlluniau i wahardd cerbydau petrol a disel erbyn 2040. Felly mae'n hanfodol bod datblygu seilwaith yn dechrau darparu ar gyfer galw cyhoeddus yn y dyfodol".

(b) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol M.Webber a S.Pickering:-

"Mae'r Cyngor yma'n ychwanegu ei gefnogaeth i Ymgyrch Genedlaethol Lucy's Law i wahardd ffermio'n bach trydydd parti. Bydd y Cyngor yma'n ychwanegu ei enw at y rhestr gynyddol o sefydliadau cefnogol a bydd yn amlygu'r ymgyrch yn rhagweithiol i'n trigolion ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor yma'n gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth y DU, gan gefnogi'r alwad am weithredu ar frys ar y mater yma. "

- 18 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a
Llywodraethol**

**At: Bob Aelod o'r Cyngor
21 Chwefror 2018**

